

NPTC Dyfarniad mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel Lefel 2



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn cynnwys gwybodaeth amrywiol a manwl am ddefnyddio a gwaredu plaladdwyr.

Mae'n uned sylfaen orfodol sy'n cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â defnyddio plaladdwyr ac mae'n rhaid iddi gael ei chwblhau cyn dechrau astudio ar unrhyw gwrs plaladdwyr NPTC arall.

Dyma'r cwrs i chi os...

...Unrhyw un y mae ei swydd yn cynnwys defnyddio plaladdwyr

...Unrhyw un sy'n dymuno datblygu ei wybodaeth

...Unrhyw un sy'n dymuno datblygu ei sgiliau

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Beth fyddaf yn ei wneud?

Yn unol â'r ddeddfwriaeth, mae gofyniad i unrhyw un sy'n defnyddio plaladdwyr fel rhan o'i swydd neu ei fusnes dderbyn cyfarwyddyd priodol a sicrhau galluedd o ran y dyletswyddau a gyflawnir. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i ddefnyddio a thrin plaladdwyr yn ddiogel a'r dulliau o ddefnyddio plaladdwyr. Bydd angen i bob unigolyn astudio'r modiwl sylfaen (PA1) a modiwl defnyddio perthnasol.

Byddwch chi'n astudio:

Deddfwriaeth
Dehongli gwybodaeth ar labeli cynhyrchion
Diogelwch personol a halogi
Storio plaladdwyr a chynhwyswyr
Gwaredu
Cadw cofnodion
Ffactorau amgylcheddol

Gwybodaeth Ychwanegol

Byddwch chi'n sefyll prawf ar-lein sy'n para am oddeutu 1 awr.

Dylech chi astudio ar y cwrs hwn ar y cyd â naill ai PA6 neu PA2 neu'r ddau gwrs.

Hyd y cwrs yw 1 diwrnod gan gynnwys asesiad ar-lein a gynhelir, fel arfer, ar ddiwedd y dydd.